

Chwarae dros Gymru

Newyddion chwarae a gwybodaeth gan y sefydliad cenedlaethol dros chwarae **Hydref 2009**



CHWARAE a Chynladwyedd




Cynnwys

tudalen

Golygyddol	2
Newyddion	3-5
Pam gwneud amser i chwarae?	6-8
Gwasanaethau Chwarae a Chynladwyedd	9
Cynyddu ein Proffil	10
Digwyddiadau Diwrnod Chwarae	11-13
Datblygu'r Gweithlu	14-15
Ariannu a Digwyddiadau	16

Cyhoeddir Chwarae dros Gymru gan Chwarae Cymru dair gwaith y flwyddyn.

Cysylltwch â'r Golygydd yn:
Chwarae Cymru, Tŷ Baltig,
Sgwâr Mount Stuart,
Caerdydd CF10 5FH

Rhif ffôn: 029 2048 6050
E-bost: gwybodaeth@chwaraecymru.org.uk
Elusen Gofrestredig Rhif. 1068926

ISSN: 1755 9243

Nid barn Chwarae Cymru o reidwydd yw'r farn a fynegir yn y cylchlythyr hwn. Rydym yn cadw'r hawl i olygu cyn cyhoeddi. Nid ydym yn arolystio unrhyw rai o'r cynnyrch na'r digwyddiadau a hysbysebwr yn neu gyda'r cyhoeddiad hwn.

Argraffwyd y cyhoeddiad hwn ar bapur a gynhyrchwyd o goedwigoedd cynaliadwy.

Dyluniwyd ac argraffwyd gan Carrick
 Ffôn: 01443 843520
 E-bost: sales@carrickdp.co.uk

Golygyddol

Y tro diwethaf imi orfod ysgrifennu 500 o eiriau ar gynladwyedd roeddw'n helpu person ifanc dan bwysau mawr i orffen traethawd. Fe ddysgom fod cynladwyedd, yn ei ystyr mwyaf cyffredinol, yn golygu'r gallu i oroesi. Fe ddisgrifion sut y bydd systemau (biolegol), er mwyn goroesi, yn parhau'n amrywiol ac yn cyfaddasu er mwyn bod yn gynhyrchiol dros gyfnod maith.

Nawr, ddegawd yn hwyrach, fe fyddwn ni sy'n ddarparwyr chwarae'n aml iawn yn ein cael ein hunain yn ymgodymu â mater llosg cynladwyedd – ar yr un pryd â delio â dirwasgiad sy'n bygwth ffynonellau ariannu. Yn fwyfwy aml, pan ddaw'n fater o fuddsoddi mewn darpariaeth chwarae, bydd ariannwr yn gofyn: "Sut gaiff y prosiect ei gynnal pan ddaw ein ariannu ni i ben?"

Mae'r cwestiwn hwn yn anochel yn golygu bod darparwyr chwarae'n chwilota am atebion sy'n cynnwys bunnoedd a cheiniogau. Ond 'does bosibl bod hyn yn ymateb penodol iawn i gynladwyedd y prosiect? Yn fy marn i, mae'r gallu i oroesi'n mynd ymhellach na chyfrif iach yn y banc.

Yn y gorffennol mae darparwyr chwarae wedi mynd i'r afael â chynladwyedd trwy gyfaddasu ac amrywio. Er mwyn sicrhau buddiannau hir-dymor ar gyfer plant a'u mynediad i gyfleoedd chwarae, bu'n rhaid inni'n aml iawn fod yn anghydfurfiol. Yng Nghymru, bu mudiadau gwaith chwarae'n llwyddiannus, gyda chymorth eu partneriaid, wrth feddwl mewn modd creadigol ac ochrol er mwyn ariannu chwarae plant. Ceir enghreifftiau o wasanaethau chwarae yng Nghymru a lwyddodd nid yn unig i oroesi dirwasgiadau blaenorol, ond hefyd hinsoddau gwleidyddol amrywiol. Yn union fel ym myd natur, bydd ein hymdrechion i sicrhau bod ein

gwasanaethau'n goroesi yn ymddangos ar amrywiol ffurfiau, yn bennaf trwy ad-drefnu neu ailystyried ffactorau economaidd ac arferion gwaith. Fel sector, hyd yn oed yn absenoldeb dyletswydd cyfreithiol i ddarparu ar gyfer chwarae plant, rydym â phrofiad o feddwl mewn modd creadigol er mwyn sicrhau buddiannau cynaliadwy ar gyfer plant.

Rydym wedi dilyn cynnydd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) â diddordeb, gan y bydd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu digonedd cyfleoedd chwarae a sicrhau bodolaeth digon o gyfleoedd chwarae. Mae lefel yr ymrwymiad i chwarae plant, yn lleol ac yn genedlaethol, wedi newid y tu hwnt i bob adnabyddiaeth yn y ddegawd a mwy ers i fy ffrind ysgol ysgrifennu ei thraethawd.

Fel sector, ar y cyd â'n partneriaid, rydym wedi cynnal diddordeb mewn ac ymroddiad tuag at ddarpariaeth chwarae o safon ar gyfer plant. Fel sector, byddwn yn parhau i anfon neges gref a chytûn i ariannwr a'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau. Yn syml iawn, mae plant wedi dweud wrthym dro ar ôl tro bod chwarae'n bwysig iddynt. Maent wedi dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi amser, lle a rhyddid i chwarae. Maent wedi dweud wrthym bod chwarae a ddewisir o wirfodd yn allweddol bwysig i bob plentyn a pherson ifanc fel rhan o'u bywydau bob dydd ac yn eu cymunedau eu hunain. Buddsoddi mewn darpariaeth ar lawr gwlad yw'r cam cyntaf i gynnal budd parhaol a chanlyniadau tymor hir, er mwyn i fwy o blant gael mynediad i ddewis o gyfleoedd chwarae o safon yn eu cymunedau.

Marianne Mannello,
Cyfarwyddwraig Gynorthwyol,
Chwarae Cymru

Diolch o galon i bawb a gyfranodd at y cylchgrawn hwn – allen ni ddim ei wneud heboch chi. Mae'r rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru*, yn ogystal â rhifynau blaenorol ar gael i'w llwytho i lawr o adran newyddion ein gwefan ar www.chwaraecymru.org.uk



Yr Hawl Cyntaf ar werth yn Japan!

Mae'n bleser gennym gyhoeddi i Yr Hawl Cyntaf ... fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae gael ei gyhoeddi'n ddiweddar yn y Japanaeg.

Ein cyfaill Hitoshi Shimamura fu'n gyfrifol am gyfieithu a chyhoeddi'r Argraffiad Japanaeg.

Mae gennym ddau gopi yn ein llyfrgell yn y swyddfa yng Nghaerdydd.



Ymddiheuriad

O ganlyniad i wall argraffu, mae'n bosibl i nifer fechan ohonoch dderbyn copi gwallus o'r rhifyn diwethaf o'n cylchgrawn *Chwarae dros Gymru*.

Os y bu ichi dderbyn copi gwallus, ac yr hoffech dderbyn copi glân, ebestiwch post@chwaraecymru.org.uk gyda'ch cyfeiriad post – neu gallwch lawrlwytho copi newydd oddi ar ein gwefan.



Adnodd newydd gan Play England

Mae Play England wedi cyhoeddi *Nature Play:*

Maintenance guide – canllaw sy'n 'anelu i gefnogi'r rheini sy'n gyfrifol am ddatblygu, trosglwyddo a chynnal mannau chwarae naturiol dyfeisgar mewn parciau a mannau chwarae.'

'Mae'r canllaw'n anelu i gefnogi awdurdodau lleol i gyflwyno chwarae natur yn eu mannau chwarae yn unol â'r egwyddorion dylunio a amlinellir yn *Design for Play: A guide to creating successful play spaces*.'

'Mae'r canllaw hwn ar gyfer pob un sydd ynghlwm â darparu a rheoli darpariaeth chwarae, yn enwedig

mannau chwarae cyhoeddus sydd heb eu staffio, yn enwedig awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, dylunwyr mannau chwarae a staff cynnal a chadw.'

Gellir lawrlwytho *Nature Play: Maintenance guide* a *Design for Play: A guide to creating successful play spaces* oddi ar www.playengland.org.uk/resources



Making space for play



Newidiadau i wiriadau CRB

Ar y 12 Hydref 2009 cyflwynwyd mesurau newydd er mwyn helpu i atal pobl anaddas rhag ymgymryd â gwaith gwirfoddol neu am dâl â phlant neu oedolion bregus.

Nid yw Cynllun Fetio a Gwahardd yr Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA) yn disodli Gwiriadau'r Biwro Cofnodion Troseddol (CRB), yn hytrach mae'n cynrychioli lefel diogelu ychwanegol. Mae'r Cynllun yn gweithio ochr-yn-ochr â'r CRB gan ddynodi'r bobl hynny allai fod yn fygythiad i blant neu oedolion bregus. Ni chaniateir i bobl sy'n cael eu hystyried yn berygl i weithio â phobl fregus.

Mae'r ISA wedi cynhyrchu pecyn gwybodaeth y gellir ei lawrlwytho sy'n cynnwys poster a thafenni gwybodaeth ar gyfer amrywiol gynulleidfaoedd sy'n egluro sut y bydd y newidiadau hyn yn effeithio arnoch chi a'ch gwaith.

Am fwy o wybodaeth ac i lawrlwytho'r pecyn gwybodaeth, ymwelwch â: www.isa.gov.org/

Swyddfa Chwarae Cymru yn y Gogledd



Yn y rhifyn diwethaf o *Chwarae dros Gymru* fe wnaethom adrodd fod ein swyddfa yng Ngogledd Cymru, ym Mhrestatyn, i gau ar ddiwedd Mehefin. Bellach mae ein Swyddog Datblygu yng Ngogledd Cymru, Martin King-Sheard, wedi ei leoli yn Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ym Mae Colwyn. Gellir cysylltu â Martin trwy ebost a dros y ffôn fel arfer. Dylid anfon unrhyw ymholiadau trwy'r post at Martin yn ein swyddfa genedlaethol yng Nghaerdydd.

Helpwch i achub y ddaear!

Anfonwch ebost atom ac fe anfonwn Chwarae dros Gymru yn syth i'ch blwch ebost

gwybodaeth@chwaraecymru.org.uk

Grwpiau trafod ebost newydd ar gyfer gwaith chwarae

Yn dilyn tranc grŵp trafod ar-lein *UK Playworkers*, sefydlwyd dau fforwm ebost newydd i rannu gwybodaeth a thrafod chwarae a phynciau sy'n ymwneud â gwaith chwarae. Dyma gyflwyniadau cryno i'r grwpiau wedi eu codi o'u disgrifiadau ar-lein.

Fforwm Gwaith Chwarae Rhyngwladol

'Mae'r fforwm ar gyfer unrhyw un sy'n weithiwr chwarae neu sy'n defnyddio gwaith chwarae yn eu rôl tra'n gweithio â phlant. Nodau'r safwe newydd hwn yw: darparu fforwm trafod rhyngwladol ar gyfer unrhyw un sy'n weithiwr chwarae neu sy'n defnyddio gwaith chwarae yn eu rôl tra'n gweithio â phlant; i symbylu dadl a thrafodaeth ynghylch arfer chwarae a gwaith chwarae; i rannu gwybodaeth sy'n cynorthwyo chwarae a gwaith chwarae.'

I ymuno â'r grŵp ewch i: <http://groups.yahoo.com/group/internationalplayworkforum/>

Fforwm Gwaith Chwarae

'Mae'r grŵp hwn yn bodoli fel ei bod hi'n dal yn bosibl ichi fod yn rhan o rydwaith ehangach o bobl broffesiynol ar draws sector gwaith chwarae'r DU. Fe'i sefydlwyd i gymryd lle yr "UKplayworkers Group" fel bod grŵp gwahanol yn cyflawni'r un diben yn yr un modd.'

I ymuno â'r grŵp ewch i: <http://uk.groups.yahoo.com/group/playworkforum/>



Materion Cyfreithiol – Mwy Fyth

Rydym eisoes wedi adrodd ynghylch peth o'r ddeddfwriaeth fydd yn effeithio ar ddarpariaeth chwarae sy'n cael ei brosesu ar hyn o bryd gan y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cadwch lygad ar ein gwefan i ddysgu beth yw'r diweddaraf am y Mesur Plant a Theuluoedd fydd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau digon o gyfleoedd chwarae ar gyfer plant.

Ar yr un pryd mae Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar Ddiwylliant wedi cael ei gyflwyno gan y Gweinidog dros Dreftadaeth; byddai hwn yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i ddeddfwriaethu ar swyddogaethau awdurdodau lleol wrth gefnogi, gwella a hyrwyddo gweithgareddau chwaraeon a hamdden.

Mae'n bosibl y gallai'r ddau gam deddfwriaethol a amlinellwyd uchod orgyffwrdd ac, yn ein tystiolaeth i'r Pwyllgor, fe wnaethom eu cynghori y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried a dynodi ffyrdd y byddant yn sicrhau synergedd, yn ddeddfwriaethol yn ogystal ag yn ymarferol, rhwng ei bolisiau, ei strategaethau a'i fentrau.

I ddysgu mwy am y GCD a'r Mesurau ymwelwch â:
www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation.htm

Thema Diwrnod Chwarae 2010



Mae Grŵp Llywio Diwrnod Chwarae wrthi'n ymgynghori ar thema ymgyrch y flwyddyn nesaf – mae'r Grŵp yn gofyn am eich syniadau.

Croesewir awgrymiadau gan unigolion a sefydliadau. Nid oes awgrym cywir nac anghywir, ac ni ddisgwylir teitlau thema bachog! Y cyfan a ofynnir yw i chi ddweud wrth Grŵp Llywio Diwrnod Chwarae beth a gredwch yw'r mater pwysicaf yn gysylltiedig â chwarae i ymgyrchu arno dros y flwyddyn nesaf.

Cynhelir Diwrnod Chwarae 2010 ddydd Mercher 4 Awst. Yn ôl yr arfer, cynhelir digwyddiadau i ddathlu Diwrnod Chwarae drwy gydol yr haf.

E-bostiwch eich awgrymiadau at playday@ncb.org.uk

www.playday.org.uk

Tymor Chwarae ar BBC Four

Caiff cyfres o raglenni teledu yn 'dathlu'r weithred o chwarae' eu darlledu ar BBC Four ym mis Rhagfyr.

Bydd y rhaglenni yn ystod y Tymor Chwarae yn cynnwys *Playground Britannia* sy'n ymchwilio chwarae plant yn yr awyr agored yn yr 20^{ed} Ganrif.

Mae gwybodaeth bellach ar gael yn: <http://feeds.bbc.co.uk/tv/features/playseason/>

Aelod Newydd o'r Tîm

Ymunodd Michelle Craig â'r fîm fel ein Cynorthwy-ydd Cyllid ym mis Ebrill 2009. Mae'n aelod o'r AAT (Association of Accounting Technicians) ac mae wedi gweithio ym maes cyfrifon ers deng mlynedd.

Yn ystod ei hamser sbâr bydd Michelle wrth ei bodd yn treulio amser gyda'i merched ac yn cymdeithasu â'i ffrindiau.

Meddai Michelle: 'Rwyf wedi dod â'm holl frwdfrydedd a'm profiad i dîm arbennig o hwyllog ac rwy'n edrych ymlaen at ddyfodol hir a hapus gyda Chwarae Cymru'.





Pam gwneud amser i chwarae?

Cefnogaeth i ddarparwyr chwarae i eiriol dros ddarpariaeth wedi ei staffio

Dadlau achos dros ddarpariaeth chwarae

Pan fyddwn yn gofyn iddynt beth sy'n bwysig iddynt, bydd plant yn dweud writhym mai chwarae a bod gyda'u ffrindiau yw un o agweddau pwysicaf eu bywydau. Ond yn aml iawn bydd oedolion yn anghofio pa mor bwysig yw chwarae, a phan ddaw'n fater o ganfod digon o amser, neu o fantoli'r cyfrifon neu i wneud penderfyniadau cynllunio, yn aml caiff chwarae ei wthio'n is i lawr y rhestir o flaenoriaethau.

Yma byddwn yn ceisio dangos pam fod chwarae mor bwysig, pam fod darpariaeth chwarae angen cefnogaeth ariannol a gwleidyddol a pham fod angen i gynllunwyr a phobl sy'n gwneud penderfyniadau i wneud amser ar gyfer chwarae plant fel rhan o'u gwaith.

Mae plant yn aelodau o'n cymdeithas hefyd. Gwyddom fod pob agwedd o'u bywyd yn cael ei ddylanwadu gan eu ysfa i chwarae, ond ychydig bach iawn o'n amgylchedd adeddedig a chynlluniedig sy'n rhoi cyfle, neu ganiatâd, iddynt chwarae.

Yn 2008 cyhoeddodd Play England, y sefydliad cenedlaethol dros chwarae plant yn Lloegr, adolygiad llenyddol ac ymchwil seiliedig ar y dystiolaeth adiweddraf ar chwarae plant, *Play for a Change*. Archwiliodd yr awduron ddealltwriaeth cyfredol o bwysigrwydd chwarae plant a sut y mae hyn yn cydberthyn â llunio polisïau a darpariaeth cyhoeddus ar gyfer chwarae. Rydym wedi gwneud defnydd helaeth o *Play for a Change* i hysbysu'r daflen briffio yma, a byddem yn argymhell y dylai unrhyw un yng Nghymru sydd â diddordeb mewn chwarae plant ei ddarllen.

Chwarae

Mae chwarae'n treiddio trwy pob agwedd o fywyd plant; nid camgymeriad na chyfeiliornad mo hyn – mae chwarae'n gwneud cyfraniad sylweddol i iechyd a lles plant ac i oroesiad yr hil ddynol, neu fydden ni heb gadw'r ymddygiad yma trwy gydol ein esblygiad.

Bydd plant a phobl ifanc yn chwarae'n ddigymell y rhan fwyaf o'r amser ac ym mhle bynnag y byddant, oni bai eu bod o dan straen meddyliol neu gorfforol neilltuo (trwy flinder difrifol, eisïau bwyd, ofn neu salwch er enghraifft) neu ble fo ffactorau amgylcheddol allanol a / neu ffactorau biolegol personol yn eu hatal rhag chwarae.

'Mae'r ymdeimlad o bleser a gwobr a geir o chwarae'n cynhyrchu archwaeth neu ysfa i chwilio am symbyliadau eraill fydd yn creu cyfleoedd i chwarae. Ni chaiff mynegi'r ysfa hon ei gyfyngu i'r amserau a'r manau y bydd oedolion yn eu neilltuo ar gyfer chwarae.'

Play for a Change.

Buddiannau chwarae i blant – goroesi a ffynnu

Nid yw'r rhestir yma o fuddiannau chwarae yn un cyflawn – mae'r ymchwil yn parhau – ond, mae'n cynnig rhyw fath o syniad inni o werth chwarae a'r ystod o fuddiannau gaiff plant o chwarae.

Gall chwarae helpu i gynyddu gwytnwch – y gallu i blant ffynnu er gwaethaf adfyd a straen yn eu bywydau.

Bydd chwarae'n effeithio ar y modd y caiff gwneud genetaidd plentyn ei fynegi, ac ar ddatblygiad cemegol a ffisegol yr ymennydd. Bydd hyn, yn ei dro, yn dylanwadu'n gadarnhaol ar allu'r plentyn i oroesi a ffynnu. *Gall plant sydd wedi datblygu ymateb dyfeisgar, chwareus i'w amgylcheddau ... addasu i ymdopi â'r rhain mewn ffyrdd hyblyg, gan arddangos gwytnwch.*

Mae iechyd corfforol a meddyliol yn gysylltiedig â'i gilydd a chaiff y ddau eu cefnogi gan chwarae – mae chwarae'n cael ei yrru gan y plentyn ac mae'n gyfeillgar i blant, mae'n apelio i bob plentyn. *[Mae mwynhad, her ac elfen hunan-gyfarwyddo chwarae, yn ogystal â'r ystod o symudiadau motor, yn fwy effeithlon na rhaglenni ymarfer corff a gyfarwyddir yn allanol, allai fod yn ddiflas neu'n llawn straen.]* Poulsen a Ziviani, 2004 fel a ddyfynnwyd yn *Play for a Change*


Mae chwarae corfforol, egniol, rheolaidd yn helpu i atal clefydau ac mae'n lleddfu iselder a phoen meddwl.

Bydd llawer o blant sydd wedi profi digwyddiadau trawmatig yn 'chwarae allan' y golygfeydd y maent wedi bod yn dyst iddynt. Dangoswyd bod chwarae yn y fath fodd yn helpu'r broses wella.

Mae natur anrhagweladwy a digymell chwarae'n cefnogi datblygu'r gallu i ymateb mewn modd hyblyg i wahanol sefyllfaoedd – i ymdopi ag ergydion bywyd.

Trwy chwarae, bydd plant yn datblygu eu hymdeimlad eu hunain o le ac o berthyn – mae cysylltiad â, a gwybodaeth ynghylch manau awyr agored yn cyfrannu at ymwybyddiaeth amgylcheddol.

Mae chwarae'n helpu'r ymennydd i ddatblygu mecanweithiau effeithlon ar gyfer dysgu – yn hytrach na throsglwyddo canlyniadau dysgu penodol – a thrwy hynny gyfrannu at allu i ddysgu gydol oes.



Mae cysylltiad cryf rhwng chwarae a chreadigedd – mae'n cynnwys meddwl ochrol, dychymyg a datrys problemau.

Bydd plant yn ennill ymdeimlad o bleser ac o wobwr trwy chwarae – bydd hiwmor a chwerthin yn helpu i ddatblygu cymwyseddau cymdeithasol.

Mae chwarae'n caniatáu ar gyfer mynegi a phrofi emosiynau cryfion o fewn cyd-destun digon diogel. (Sutton Smith)

Mae chwarae â phlant eraill yn helpu unigolion i ddatblygu cyfeillgarwch a rhwydweithiau cyfoedion cryf – sy'n cyfrannu at wytnwch iechyd, meddyliol a chymdeithasol plant – yn enwedig rhai sy'n byw mewn tŷodi.

Mae cyfeillgarwch plant, gaiff eu ffurfio trwy chwarae gyda'i gilydd, o fudd cymdeithasol ac yn gatalyddion gwerthfawr i berthnasau cymdeithasol oedolion o fewn cymunedau.

Buddiannau darpariaeth chwarae i blant

Mae darpariaeth chwarae wedi ei staffio yn gysyniad cymharol newydd a phrin yw'r ymchwil i'w effeithlonrwydd. Yr hyn yr ydym yn ei wybod yw bod chwarae plant yn fuddiol am yr holl resymau yr ydym wedi ei restru eisoes, ac na ellir deall eu lles a'u datblygiad fel elfen ar wahân i'w amgylchedd.

Mae darpariaeth chwarae wedi ei staffio o safon yn amgylchedd ble y gall plant chwarae mewn modd sy'n ddigymell, hyblyg, anrhagweladwy, llawn dychymyg ac wedi ei gyfarwyddo gan y plant eu hunain – mae'r amgylchedd ei hun yn cyfrannu at eu iechyd a'u lles. Bydd gweithwyr chwarae sy'n gweithio'n unol â'r Egyddorion Gwaith Chwarae'n cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i greu gofod y gallant chwarae ynddo.

Ceir rhai ffactorau amgylcheddol a/neu fiolegol personol allanol sy'n atal rhai plant rhag chwarae. Caiff rhai plant eu cefnogi i chwarae mewn amgylchedd ble fo gweithwyr chwarae hyfforddedig sy'n gwybod sut i ymyrryd ble fo angen i hwyluso

chwarae. Bydd hyn yn ymestyn buddiannau chwarae i blant na fyddent yn elwa ohono fel arfer.

Mae darpariaeth chwarae wedi ei staffio o safon yn darparu 'pair' i gymdogaeth ble y gall plant, na fyddent yn cwrrd a chymdeithasu fel arfer, gymysgu mewn cyd-destun digon diogel; bydd hyn yn cynnig profiad o bobl eraill a mwy o gyfleoedd ar gyfer rhwydweithiau cymdeithasol ehangach sy'n cyfrannu at wytnwch plant.

Mae ein cymdeithas yn un sy'n ofni risg yn gynyddol; ceir llai a llai o gyfleoedd i fynegi ymddygiad sy'n cynnwys mentro mewn modd digymell. O fewn darpariaeth chwarae wedi ei staffio o safon ceir dealltwriaeth y bydd plant yn naturiol yn chwilio am ansicrwydd a heriau fel rhan o'u chwarae, caiff gweithwyr chwarae eu hyfforddi i asesu risg ac i ymyrryd dim ond os y bydd siawns sylweddol y caiff plant eu niweidio. Mae darpariaeth chwarae'n cynnig gofod 'digon diogel' ble y gall plant 'reoli bod allan o reolaeth'.

O fewn darpariaeth chwarae wedi ei staffio o safon ceir dealltwriaeth o bob ffurf a math o ymddygiad chwarae, efallai nad yw hyn yn wir mewn mannau eraill. Er enghraifft, mae chwarae corfforol, gwyllt yn cyfrannu mewn modd cadarnhaol tuag at wytnwch a chlosio cymdeithasol plant (yn enwedig bechgyn) ond mae'n tueddu i gael ei wahardd mewn nifer o gartrefi ac ysgolion.

Ceir tystiolaeth bod llawer o rieni bellach yn fwy caeth ynghylch rhyddid eu plant i rodio a chwarae draw oddi wrth y cartref nag mewn cenedlaethau blaenorol. Gall darpariaeth chwarae wedi ei staffio o safon mewn cymdogaethau lleol roi hyder i blant a theuluoedd y gallant chwarae allan heb gael eu niweidio a chynnig dewis 'digon diogel' o fannau i gymdeithasu a chwarae draw oddi wrth y cartref.

Mae bywydau plant yn cael eu gwladychu fwyfwy gan weithgareddau gaiff eu harwain gan oedolion – mewn darpariaeth chwarae wedi ei staffio o safon annogir y plant i fod yn weithredwyr rhyddion – i wneud eu penderfyniadau eu hunain, creu eu man chwarae eu hunain, cyfarwyddo eu chwarae eu hunain. Mae plant yn gwerthfawrogi amgylcheddau ble y gallant fod yn nhw eu hunain a bod yn ddigymell. Mae plant yn 'neoffilyddion' – golyga hyn



eu bod wastad yn chwilio am ddewisiadau newydd ac amrywiol, sianelau newydd ar gyfer archwilio a darganfod, cyfleoedd a symbyliadau newydd er mwyn bod yn hapus ac yn iach. Gall darpariaeth chwarae wedi ei staffio ddarparu'r posibiladau newydd y mae plant eu hangen i gael y budd mwyaf o'u hamser yn chwarae – fodd bynnag, mae meysydd chwarae offer sefydlog yn tueddu i fod â nifer cyfyngedig o bosibiliadau ar gyfer chwarae plant.

'Mae awydd oedolion am ddiogelwch, trefn a gwelededd yn wahanol iawn i awydd y plentyn am anhrefn, cysgod a deunyddiau rhydd'. Weithiau caiff chwarae plant ei lesteirio gan anghymeradwyaeth a gwerthoedd oedolion. Fel rhan o'u chwarae bydd plant angen bod yn wirion, cwmpo mas, chwarae'n wyllt a chorfforol, gwneud sŵn a llanast, bod yn ddigywilydd ac yn greulon a dysgu'r canlyniadau gan eu cyfoedion, a dinistrio yn ogystal â chreu. Mae mynegi'r anghenion hyn yn annerbyniol mewn nifer o amgylcheddau a sefyllfaoedd – fe'i dderbynir fel rhan o ystod chwarae plant o fewn darpariaeth chwarae wedi ei staffio o safon.

'Mae awydd oedolion am ddiogelwch, trefn a gwelededd yn wahanol iawn i awydd y plentyn am anhrefn, cysgod a deunyddiau rhydd'.

Caiff plant eu cynnwys mewn prosesau gwneud penderfyniadau o fewn darpariaeth chwarae – o benderfynu a thrafod sut y byddant yn chwarae gyda'i gilydd, i ddewis gweithwyr chwarae newydd, bydd hyn yn cynnig cyfle ar gyfer cyfranogi ac asiantaeth bersonol sy'n aml ar goll mewn meysydd eraill o'u bywydau.

Mae llai a llai o blant yn chwarae allan yn ein parciau a'n strydoedd – un o'r rhesymau am hyn yw diffyg hyder yn eu diogelwch, rheswm arall yw anoddefgarwch cynyddol tuag at eu hymddygiad chwarae, ond yn ogystal mae plant yn amharod i fynd allan i chwarae os nad oes neb arall i gwrdd â nhw ac i chwarae â nhw. Mae plant sy'n tyfu i fyny heddiw'n tueddu i fod â llai o gyfleoedd i gwrdd â'i gilydd ac i chwarae'n annibynnol – mae darpariaeth chwarae wedi ei staffio'n cynnig cyfle o'r fath.

Mae'r gweithwyr chwarae a geir mewn darpariaeth chwarae wedi eu hyfforddi i gefnogi chwarae plant trwy ddarparu deunyddiau, man diogel a chaniatâd – ni fyddant yn cyfarwyddo chwarae'r plant nac yn ymuno yn y chwarae, oni bai eu bod yn derbyn gwahoddiad.

Mae gan blant hawl i chwarae yn unol â Chytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae camau cyfreithiol ar droed yng Nghymru (haf 2009) i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu ar gyfer chwarae plant.

Mae darpariaeth chwarae wedi ei staffio o fewn cymuned yn dangos i'r bobl sydd yn y gymuned honno bod chwarae'n bwysig – mae ganddo hefyd rôl eiriolaeth a gwaith maes pwysig. Nid yw sefyllfa chwarae wedi ei staffio'n 'ghetto'



chwarae, ond yn hytrach mae'n un o'r elfennau ddylai fod yn ystod eang o ddewisiadau ac chyfleoedd ar gyfer chwarae o fewn cymuned plentyn. Hyfforddir gweithwyr chwarae i eiriol dros chwarae plant – i hyrwyddo'r syniad bod chwarae'n normal ac yn angenrheidiol ac yn ymddygiad sydd i'w groesawu mewn unrhyw fan ble y bydd plant yn feithio trwyddo neu'n treulio amser ynddo.

Mae'r cwricwlwm gwaith chwarae, gaiff ei gefnogi o fewn darpariaeth chwarae wedi ei staffio o safon, yn cynnwys chwarae gyda'r elfennau. Caiff plant eu hannog i chwarae gyda daear, awyr, dŵr a thân mewn cyd-

destun digon diogel ble mae oedolion wrth law fydd yn asesu risg yn barhaus ac yn cefnogi arfer diogel. I rai plant dyma eu hunig brofiad o'r elfennau – neu'r unig fan yn eu bywydau ble y bydd ganddynt hawl i chwarae â nhw.

Ble fo plant wedi eu trawmateiddio gan ddigwyddiadau yn eu bywydau, bydd yr agwedd gwaith chwarae'n cefnogi 'chwarae allan' ac ail-greu profiadau anodd mewn modd sensitif ac anfarnol. Er enghraifft, efallai y bydd plentyn sydd wedi bod yn dyst i drais difrifol o fewn y teulu yn ail-greu digwyddiadau o'r fath wrth chwarae – mae gweithwyr chwarae wedi eu hyfforddi i gymryd amgylchiadau ac ysfa chwarae'r plentyn i ystyriaeth ac i ymateb heb eu ceryddu. Mae'n bosibl na fydd chwarae o'r fath yn derbyn yr un ymateb sensitif mewn manau eraill yn mywyd y plentyn.

Gall darpariaeth chwarae wedi ei staffio o safon greu canolbwynt i gymuned, yn debyg iawn i'r hyn y bydd ysgolion yn ei gynnig yn ystod y tymor, neu fel yr arferai capeli ac eglwysi yn y gorffennol, maent yn cynnig cyfleoedd an-fygythiol i oedolion a phobl ifanc i wirfoddoli a chymryd rhan.

Mae darpariaeth chwarae wedi ei staffio'n darparu cyfleoedd gwaith a datblygu'r gweithlu o fewn cymunedau.

Mae plant a theuluoedd yn gwerthfawrogi darpariaeth chwarae wedi ei staffio o safon; y perthnasau y byddant yn eu ffurfio trwyddo a'r cyfraniad y mae'n ei wneud i gymunedau. Po orau a mwyaf cynhwysfawr yw'r ddarpariaeth chwarae mewn cymuned, po fwyaf y mae teuluoedd yn debygol o gael eu denu i fyw yno, oherwydd eu bod yn gwybod y caiff eu plant eu gwerthfawrogi ac y caiff anghenion eu plant eu cwrrd.

Casgliad

Mae chwarae'n allweddol bwysig i iechyd a lles plant. Mae plant yn gyd-aelodau o gymdeithas ond eto, mae'r manau y byddant yn treulio amser ynddynt fwy na heb yn wael mewn posibiladau chwarae. Mae darpariaeth chwarae wedi ei staffio'n ddewis gwerthfawr sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo chwarae plant yn eu cymuned.

Darllen ychwanegol

Else, P. (2009) *The Value of Play*. Llundain: Continuum International Publishing Group

Lester, S. and Maudsley, M. (2007) *Play, naturally*. Llundain: Play England

Lester, S. and Russell, W. (2008) *Play for a Change*. Llundain: Play England

Sutton-Smith, B. (1997) *The Ambiguity of Play*. Cambridge, Massachusetts: Harvard University Press



Gwasanaethau Chwarae a Chynladwyedd

Mae cynladwyedd yn air a ddefnyddir yn aml gan bobl sy'n ariannu ac yn gwneud penderfyniadau. Yma rydym yn archwilio yr hyn y mae'n ei olygu i wasanaethau chwarae.

Wedi ei Wreiddio yn y Gymuned

Nid yw cynnal darpariaeth yn ymwneud â chyllid yn unig – mae hefyd yn ymwneud llawer â phobl. Mae cynnal darpariaeth chwarae'n bwysig i blant a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt (gweler ein taflen frifio *Pam gwneud amser i chwarae?*) – i fod yn gynaliadwy, byddwn angen cefnogaeth a chyfranogaeth y gymuned sy'n byw o'n hamgylch.

Mae darpariaeth chwarae o safon wedi ei wreiddio yn y gymuned leol ac mae'n ffynnu ar berthnasau cryfion ag aelodau o'r gymuned – yn enwedig plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Bydd meithrin perthnasau cadarnhaol o fewn y gymuned leol 365 dydd y flwyddyn yn golygu bod â grŵp parod o ddarpar gefnogwyr sy'n deall gwerth y ddarpariaeth.

Bydd cefnogwyr yn rhannu eich pryderon os yw'r gwasanaeth chwarae'n cael ei gwtogi neu ei ddileu. Er mwyn i unrhyw ddarpariaeth chwarae wedi ei staffio fod yn llwyddiannus, boed yn faes chwarae antur neu'n brosiect chwarae peripatetig sy'n gweithio ar lain las lleol, bydd ymdeimlad o berchenogaeth a chyfranogaeth cymunedol yn allweddol.

Bydd datblygu cysylltiadau a pherthnasau da gyda phobl ddylanwadol, megis cynghorwyr lleol, trigolion eraill a busnesau lleol, a darparwyr eraill, megis ysgolion, yn creu cronfa eang o bobl i'w recriwtio i gefnogi unrhyw ymgyrch ar gyfer cynnal y prosiect.

Cyfranogaeth

Mae gan blant a phobl ifanc hawl i gyfranogi a mynegi eu barn ynghylch penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau – mae ganddynt hefyd ddiddordeb byw mewn cynnal darpariaeth chwarae o safon.

Bydd cyfranogaeth gwirfoddol plant a phobl ifanc mewn unrhyw ymgyrch nid yn unig yn strategol (bydd gwleidyddion a phobl sy'n gwneud penderfyniadau'n amharod i gael eu condemnio gan y cyhoedd am 'niweidio' aelodau mwyaf bregus ein cymdeithas), ond bydd hefyd yn rhoi cyfle iddynt fod yn rhan o broses gwleidyddol a chymdeithasol.


Un enghraifft ddiweddar o weithredu llwyddiannus yw pan y bu i blant Llanelwng benderfynu i dapio eu hunain yn sownd i'r tanc mawr oedd yn ffocws canolog i'w gwasanaeth chwarae lleol, ac ni fu modd i'r lori a ddaeth i'w nôl i'w gludo i ffwrdd.

Swyddi lleol ar gyfer pobl leol

Un ffordd o feithrin perthnasau lleol cadarnhaol yw trwy gyflogi pobl leol (unai ar sail cyflogedig neu fel gwirfoddolwyr) fydd yn dod â phob math o fuddiannau gyda hwy, yn cynnwys gwybodaeth leol a dealltwriaeth o rinweddau cyfoethog diwylliant a hanes y gymuned leol. Tra ei bod yn bwysig i gael ffin cyfnewys o staff sy'n meddu ar gymwysterau proffesiynol a / neu arbenigedd penodol, gellir hyfforddi staff a aned ac a faged yn lleol i'r lefel angenrheidiol a gallant ychwanegu at ansawdd y berthynas gyda'r plant a'r gymuned.

Materion ariannol

Mae'n bwysig i beidio â dibynnu'n llwyr ar



un ffynhonnell ariannu ac i gynllunio ymlaen. Efallai bod cyllid statudol ar gael gan yr awdurdod lleol, neu bod cyllid an-statudol ar gael gan ymddiriedolaethau elusennol – bydd angen inni neilltuo amser ar gyfer ymchwilio a dal i ymgeisio am arian fel rhan o'n patrwm gwaith bob dydd (gaiff ei gynnwys mewn swydd ddisgrifiadau a chynlluniau gwaith, ar yr agenda yng nghyfarfodydd y bwrdd rheoli.)

Casgliad

Yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, allwn ni ddim bod yn hunanfodlon a bydd angen inni fod yn barod. Mae'n bosibl y bydd toriadau yn y cyllid sydd ar gael gan yr awdurdod lleol, ac mae'r ymddiriedolaethau elusennol hwythau wedi cael eu bwrw gan y dirwasgiad. Ond mae hwn hefyd yn amser sy'n llawn cyfleoedd – yn amser inni greu ein lwc ein hunain.

Monitro a chofnodi

Yn aml iawn caiff y rhain eu gadael oddi ar y rhestr pethau i'w gwneud, ond mae angen inni gymryd amser yn rheolaidd i fonitro, gwerthuso a chofnodi'r buddiannau y bydd ein gwasanaethau chwarae'n eu cynnig i blant a'u cymunedau lleol.

Bydd monitro a chofnodi'n darparu tystiolaeth am yr angen i gynnal y gwasanaeth presennol yn ogystal â chefnogi ceisiadau ariannu. Mae mwy o ddarpar gyllidwyr yn chwilio am dystiolaeth y bydd eu buddsoddiad yn gwneud gwahaniaeth mesuradwy i blant – os nad yw'r dystiolaeth yma gennym, mae'n bosibl y byddwn yn colli allan.



Cynyddu ein Proffil

Mae Diwrnod Chwarae eleni fel cyfle i gynyddu proffil darpariaeth chwarae lleol, ond 'does dim rhaid inni aros tan y dydd Mercher cyntaf ym mis Awst, mae hyn yn rhywbeth y gallwn ei wneud trwy gydol y flwyddyn.

Mae Diwrnod Chwarae 2009 ynghylch gwneud amser ar gyfer chwarae – 365 dydd o'r flwyddyn – ac ar yr un pryd golyga'r hinsawdd gwleidyddol ac economaidd presennol bod rhai cyllidebau'n cael eu gwasgu a bod penderfyniadau anodd yn cael eu gwneud ynghylch ariannu – rhagwelir y gallai hyn barhau am gryn amser. Fu cynyddu proffil a hyrwyddo buddiannau darpariaeth chwarae erioed mor bwysig.

Dyma ein awgrymiadau ni ar gyfer cynyddu proffil gwasanaeth chwarae lleol – os yw pethau'n dda neu'n ddrwg.

Gwnewch amser i greu cynghreiriaid defnyddiol.

Dysgwch pwy sy'n gwneud y penderfyniadau ynghylch ariannu eich darpariaeth chwarae. Lluniwch berthnasau gyda phobl allweddol sy'n gwneud penderfyniadau a gwleidyddion lleol ac ymgeisywyr gwleidyddol (o bob plaid) – ewch ati i'w gwahodd i ddod draw i weld beth ydych yn ei wneud a'r hyn y mae'n ei olygu i blant, wyrion a theuluoedd. Sgwrsiwch am eich gwasanaeth â phawb (o'r meddyg a'r cynghorydd lleol i'r fam-gu ar y cornel).

Gwnewch amser i ledaenu'r gair.

Gwnewch amser i gael sylw i'ch



Ben Greenaway o Gymdeithas Chwarae Rhondda Cynon Taf yn cael ei holi gan griw teledu mewn digwyddiad Diwrnod Chwarae ym Mhontypridd

Y neges allweddol yw:

Rydym wedi ymgynghori â phlant ddigon o weithiau – rydym yn gwybod beth maent wedi gofyn amdano – mae'r plant yn dweud ei bod yn amser i CHWARAE

gwasanaeth yn y cyfryngau lleol – defnyddiwch y wasg a'r teledu lleol (ond peidiwch â dibynnu arno'n ormodol – gallwn ddefnyddio technolegau newydd hefyd). Gwnewch yn siŵr bod pawb yn gwybod eich bod yno a'r hyn yr ydych yn ei wneud – ac yn bwysicaf oll, yr hyn y mae eich gwasanaeth yn ei olygu i blant a theuluoedd lleol. Dywedwch wrth bawb amdano – dathlwch eich llwyddiannau a rhoddwch gyhoedduswydd i unrhyw newyddion.

Gwnewch amser i gynnwys aelodau o'r cyhoedd.

O wneud yn siŵr bod rhieni a gofalwyr yn teimlo'n ddigon cyfforddus i alw i mewn am sgwrs (neu hyd yn oed i wirfoddoli fel gweithwyr chwarae) i recriwtio ymddiriedolwyr o'r gymuned

leol ac o blith y bobl leol fydd yn gwneud penderfyniadau.

Gwnewch amser i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Os oes modd, peidiwch â dibynnu'n llwyr ar un ffynhonnell o ariannu – gwnewch amser i chwilio am wahanol ffynonellau ariannu. Byddwch â chynlluniau wrth gefn yn barod i'w addasu os digwydd i gyfle ariannu newydd godi.

Gwnewch amser i chwilio am gefnogaeth o'r sector chwarae.

Lluniwch gysylltiadau cryfion gyda Swyddog Gweithredol eich cymdeithas chwarae rhanbarthol, sy'n gweithio'n strategol i gefnogi darpariaeth chwarae yn eich hardal chi. Edrychwch ar y rhestr ar: www.chwaraecymru.org.uk



Bro Morgannwg

Trefnodd tîm datblygu chwarae Bro Morgannwg ddigwyddiad Diwrnod Chwarae ym Mharc Victoria yn y Barri.

Roedd gweithgareddau'r diwrnod yn cynnwys llithren ddŵr a chelf a chreffft. Bu Jane Hutt AC yn bresennol, ac ymunodd yn y tostio malws melys!



Rhondda Cynon Taf

I Ben Greenaway, Swyddog Gweithredol Cymdeithas Chwarae Rhondda Cynon Taf, arweiniodd gweithio mewn partneriaeth â mudiadau lleol eraill at Ddiwrnod Chwarae hynod o lwyddiannus ym Mhontypridd.

Roedd Dydd Mercher 5 Awst 2009 yn ymddangos yn bell i ffwrdd pan ddechreuom feddwl am gynnal digwyddiad Diwrnod Chwarae. Ar ddiwedd hydref 2008 daeth grŵp ohonom ynghyd â chyllideb o £1000 a llawer o frwdfrydedd a chynlluniau mawrion. Cymerodd Cymdeithas Chwarae RhCT yr awenau mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Interlink, Partneriaeth Menter Pen-y-waun a Valleys Kids – ond sut allen ni sicrhau digon o arian i fforddio'r hyn yr oeddem am ei wneud? Fe lwyddom i dderbyn £1000 oddi wrth Fframwaith a £1000 gan Ddysgu Tu Allan i Oriau Ysgol – wnaeth gyfrannu at ddarparu cludiant bws ar gyfer Cynlluniau Chwarae. Fe wnaethom hefyd ennill grant o bron i £5000 gan Arian i Bawb y Loteri FAWR.

Bu'r staffio'n llwyddiannus, gan i Dim Brys RhCT, gweithwyr chwarae o Lantrisant a Michael Sobel Playpods, Fan Valleys Kids a'r timau Pods i gyd gael eu clustnodi i weithio yn y digwyddiad. Tynnodd pawb yn y bartneriaeth

gyda'i gilydd a gweithio'n galed – boed wrth gynllunio cyfleoedd chwarae neu brynu a chasglu adnoddau.

Deliodd adran Parciau RhCT â'r holl elfennau logisteg oedd yn ymwneud â defnyddio Parc Ynys Angharad ym Mhontypridd. Ymunodd tîm Digwyddiadau Arbennig RhCT â ni, fydden ni wedi gallu gwneud dim hebddynt. Fe lwyddom i gynnal y digwyddiad ar ôl digwyddiad arall a gynhaliwyd yn y parc ... olygodd bod gennym ddefnydd o gymaint o bebyll mawr, ffensys diogelwch, generaduron, byrddau a chadeiriau â oeddem eu hangen.

Roedd gan bob aelod o'r bartneriaeth eu tasgau penodol eu hunain i weithio arnynt. Aeth pawb ati i fegera a benithyca er mwyn darparu cymaint o adnoddau â phosibl. Gan mai hwn oedd ein digwyddiad cyntaf 'doedd gennym ddim syniad faint o bobl i'w disgwyl, ond roeddem yn gwybod y gallai o leiaf 1,000 o bobl fynychu (gan mai dyna faint o seddi oedd wedi eu trefnu ar fysiau).



Roedd y tywydd ar y diwrnod cyn y digwyddiad yn nodweddiadol o fis Awst – yn ofnadwy o wlyb, ond roedd pob un ohonom yno yn y parc yn gosod y ffensys diogelwch, yn dosbarthu'r holl adnoddau yn y pebyll ac yn llanw tanciau dŵr yn barod ar gyfer llithren ddŵr ac ymladdfeydd dŵr. Dyma pryd y sylweddolwyd cymaint o adnoddau yr oeddem wedi llwyddo i'w casglu, er gwaetha' cyfyngiadau'r gyllideb.

Ar Ddiwrnod Chwarae tywynodd yr haul – mynychodd tua 3,760 o bobl y diwrnod a chafodd pawb amser gwych. Mae pawb oedd ynghlwm â'r diwrnod yn cytuno bod angen inni wneud Diwrnod Chwarae Cenedlaethol yn ddigwyddiad blynyddol yn RhCT ... er bod rhai o'r plant oedd yno ar y diwrnod am inni ei gynnal bob wythnos!!



Conwy

Roedd Parc Eirias ym Mae Colwyn yn llawn gweithgarwch a Rchwerthin ar Ddiwrnod Chwarae. Cymerodd nifer o fudiadau ran yn cynnwys Dechrau'n Deg, NCMA, CVSC, Clybiau Plant Cymru, Tîm Ffordd o Fyw a Chanolfan Hamdden Bae Colwyn.

Daeth plant o bob oed draw i gael tro ar yr enwog 'smoothie bike'! Roedd y plant wrth eu bodd yn creu eu llyfnion ffrwyth eu hunain tra'n marchogaeth y beic i reoli'r peiriant. Am sioe! Aeth rhai plant ati i greu cuddfannau a dringo coed, bu rhai yn archwilio'r afon gyfagos tra bo eraill yn gwrandao ar stori ar y glaswellt. Fel rhan o thema'r diwrnod aeth rhai o'r plant ati i greu clociau lliwgar; bu Clybiau Plant Cymru yn eu helpu i 'Wneud Amser i Chwarae.'

Trwy gydol y dydd daeth tua 20-30 o blant draw. Bu'r Helfa Drysor yn llwyddiant ysgubol gyda'r plant yn cuddio a chwilota am drysor gyda chymorth map. Bu'r diwrnod yn llwyddiant mawr a mwynhaodd bawb fod yn yr haul a chael hwyll!



Torfaen

Cynhaliwyd amrywiol Cddigwyddiadau o amgylch Torfaen i ddathlu Diwrnod Chwarae. Roedd y digwyddiadau i gyd yn rhad ac am ddim a rhoddwyd pwyslais mawr ar ddarparu gweithgareddau seiliedig ar chwarae oedd yn hyrwyddo ffordd iach o fyw a lles cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

Cynhaliwyd y prif ddiwyddiad ger Llyn Cychod Cwmbwrân – gyda thrampolinau anferth, wal ddringo, sgiliau syrcau, cwrd ag anifeiliaid, rasmus gwirion, troell crochenydd,

chwaraeon, celf creadigol, adeiladu cuddfannau, modelu â sbwriel, crefft gwersylla i enwi dim ond rhai. Daeth dros 600 o blant i'r digwyddiad o gynlluniau chwarae lleol yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd – dywedodd un plentyn wyth mlwydd oed 'Mae fan hyn yn well nag Alton Towers!'

I gydfynd â thema Diwrnod Chwarae eleni, 'Gwnewch Amser i Chwarae', am 12 o'r gloch ym mhob digwyddiad ar draws y wlad arweiniodd y plant a'r bobl ifanc orymdaith â fflagiau a baneri. Roedd yr orymdaith hon yn galluogi'r plant a'r bobl ifanc i sefyll i fyny dros eu hawl i chwarae.



Gwynedd

Cynhaliwyd Diwrnod Chwarae Gwynedd Celeni yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Y Bala. Aeth y Swyddogion Datblygu Chwarae Rhanbarthol a Swyddog Chwarae Gwynedd ati i sicrhau bod plant yn aros i chwarae ar eu ffordd o amgylch y Maes.

Roedd dŵr yn rhan allweddol o'r chwarae! Bu plant yn chwarae yn y cyffion am oriau ... yn taflu sbwnjis gwlyb at ei gilydd a hyd yn oed at rai o'r rhieni! Paentiodd y plant wal graffiti, paentio â thywod a hyd yn oed paentio eu hunain! Crewyd cornel hud a lledrith ble y cafodd y plant gyfle i greu eu swynion eu hunain oedd yn cynnwys gwe pry cop, clustiau elyll a llwch tylwyth teg!

Dywedodd y swyddogion i'r diwrnod fod yn gyfle gwych i gwrrd â gwahanol fudiadau, cynghorwyr a phobl berthnasol ac i ledaenu'r gair ynghylch chwarae. Fe arhosodd o leiaf 50 o blant i chwarae. Bu'r diwrnod yn llwyddiant mawr.





Caerdydd

Daeth Re-Create â phreswylwyr ac amrywiaeth o wasanaethau cymunedol ynghyd i gefnogi cynllun i adfer ardal chwarae carreg drws ar gyfer plant lleol yn Grangetown, Caerdydd. Dechreuwyd trwy ddathlu Diwrnod Chwarae.



Roedd rhieni yn pryderu fod perchnogion cŵn yn defnyddio'r gerddi lleol fel toiled cŵn - a chredent y byddai'n well defnyddio'r ardal i blant chwarae.

Ar ôl trafodaethau dechreuol ar lansio ymgyrch i adfer yr ardal ar gyfer defnydd plant, helpodd Re-Create y grŵp i ddod i gysylltiad gyda gwasanaethau cefnogaeth presennol a'r Gymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr leol. Cafwyd grant bychan gan Gyngor Sir Caerdydd i gynnal pedwar sesiwn chwarae yn ystod yr haf gan gychwyn gyda digwyddiad ar Ddiwrnod Chwarae. Roedd gan Weithiwr Datblygu Chwarae Re-Create, a ariannwyd gan Cymorth, rôl hollbwysig wrth ddod â rhieni a gwasanaethau ynghyd.

Roedd y Gymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr wedi ceisio cynnal digwyddiadau yn y parc yn flaenorol ond ni fedrent fforddio'r yswiriant atebolwydd cyhoeddus angenrheidiol oedd yn ofynnol gan yr adran parciau. Mae yswiriant Re-Create eisoes yn cynnwys digwyddiadau cyhoeddus, ac fel elusen gofrestredig medrwn gael mynediad i gyllid nad yw ar gael i grwpiau lleol bach.

Daeth 80 o blant a'u teuluoedd i'r digwyddiad yng Ngerddi Pentre ar Ddiwrnod Chwarae, a chafwyd diwrnod hwyliog ac anffurfiol. Rhoddodd staff Re-Create ychydig o ysbrydoliaeth i gychwyn pethau, yn ogystal ag amrywiaeth o ddeunyddiau sgrap o'r Ganolfan Adnoddau Chwarae ym Mhont Trelái. Nid oedd y plant fawr o dro'n ymuno, ac yn fuan iawn roedd gennym robotau, masgiau, hamocs a gemau tic yn digwydd drwy gydol y dydd. Roedd rhywbeth i bawb, yn cynnwys syniadau ar gyfer rhieni a gweithwyr clwb plant o'r Deml leol.

Roedd rhieni yn fodlon iawn gyda'r digwyddiad - roeddent wrth eu bodd yn gweld cynifer o blant yn chwarae gyda'i gilydd yn y parc, a chawsant eu synnu cyn lleied oedd ei angen i gefnogi chwarae'r plant.

Bydd Re-Create yn parhau i gefnogi'r syniadau hyn, ac i atgoffa preswylwyr lleol nad oes angen unrhyw ganiatâd, yswiriant na chyllid i deuluoedd gwrrd a chwarae yn eu parc lleol - drwy gydol y flwyddyn.

Cysylltwch â Re-Create: 029 2057 8100.

Wrecsam

Yn Wrecsam amcangyfrifir i 2,000 o bobl fynychu digwyddiad Diwrnod Chwarae yn Queen's Square. Trawsnewidwyd blaen a chefn Adeilad y Cyngor - gydag amrywiol fudiadau o bob cwr o Wrecsam yn gwneud amser i chwarae.

Ar y sgwâr, trawsffurfiwyd bêls gwellt a leinin pwll rber anferth yn lyn cychod ar gyfer Cwryglau, tra y bu Colin Powell a staff Cwm Gwenfro yn adeiladu caerau o baledi ac yn trefnu ymladdfa balwnau dŵr wyllt! Roedd NEW Play, y gymdeithas

chwarae ranbarthol, wrth law â swigod anferth a gwnaeth fîm Chwarae WCBC eu gorau i gael pawb yn wlyb gyda bath jeli, llithren ddŵr a sbwnjjs. Adeiladodd staff o'r Venture dân a chreu danteithion gyda malws melys wedi eu tostio a bisgedi 'Rich Tea'.

Bu hwn yn digwyddiad lliwgar gydag amrywiol gyfleoedd ar gyfer plant a phobl ifanc i chwarae ac roedd y ffaith iddo gael ei gynnal yn agos i ganol y dref ac Adeilad y Cyngor yn golygu y bu i siopwyr a swyddogion y cyngor, wneud amser i chwarae.





Ein Cydlynnydd Cymwysterau Newydd

Mae Maria Randall wedi ymuno â'r tîm fel Cydlynnydd Cymwysterau'r cyrsiau Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P³).

Mae gan Maria bymtheg mlynedd o brofiad o weithio fel Cydlynnydd Coleg Staff gydag Asiantaeth Ieuenctid Cymru. Mae'n gaffaeliad mawr i'n tîm, gan ddod â'i harbenigedd a'i hagwedd drefnus, drylwyr i'r gwaith gweinyddol sydd yn gysylltiedig â darparu'r cymhwyster hwn. Roedd ei chyfrifoldebau yn ei swydd flaenorol yn cynnwys trefnu cyrsiau hyfforddi, cynnal cofrestrau myfyrwyr / hyfforddwyr a sicrhau bod gweithdrefnau achredu'n rhedeg yn llyfn.



Mae Maria'n ymuno â ni ar secondiad o Gangen Strategaeth Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Cynulliad Cymru tan fis Mawrth 2010 ac rydym yn gweithio'n galed i godi'r arian sydd ei angen i gadw'r swydd hon (a Maria with gws) yn y tymor hir.

Strategaeth DPP

Mae *Potensial mewn Gwaith Chwarae – Strategaeth Datblygiad Proffesiynol* Parhaus Cymru yn y camau olaf o gael ei ail-ddrafftio yn dilyn ymgynghoriad.

Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bob un wnaeth ymateb – rydym wedi defnyddio eich ymatebion i sicrhau bod y ddogfen hon yn arf llawer mwy effeithlon ar gyfer y sector gwaith chwarae yng Nghymru.

Bydd *Potensial mewn Gwaith Chwarae* ar gael i'w lawrlwytho yn Gymraeg a Saesneg oddi ar wefan Gwaith Chwarae Cymru ym mis Tachwedd 2009.

Llawlyfrau P³

Mae'r llawlyfrau sy'n cydfynd â'n cymhwyster Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P³) ar werth nawr.

Mae fersiwn hyfforddwr a dysgwr ar gael ar gyfer pob adran o Lefel 2 – Y Wobr, Y Dystysgrif a'r Diploma.

Rydym (ynghyd â thîm Ro weithwyr chwarae a hyfforddwyr arbenigol) wedi gweithio'n hynod o galed i

ddarparu deunyddiau hyfforddi o safon ar eich cyfer – sy'n llawn gwybodaeth ymarferol a damcaniaethol hanfodol i atgyfnerthu'r cyrsiau P³ a ddysgir.



Hyfforddiant AM DDIM!

Mae'r Dystysgrif Lefel 2 yma mewn Cynnal Dysgu (9297) o fudd i bawb yn y gweithle, yn enwedig y rheini sydd am gefnogi ac arwain eu cydweithwyr trwy hyfforddiant a datblygiad. Mae'r buddiannau personol a phroffesiynol yn aruthrol a thrwy fod â gweithlu mwy hyfforddedig a llawn ysgogiad gall pob un ohonom gyflawni mwy.

Mae hyfforddiant De Cymru wedi ei drefnu ar gyfer 25 Tachwedd, 2 Rhagfyr, 9 Rhagfyr a 16 Rhagfyr.

Rydym yn awyddus iawn i gynnig yr hyfforddiant trwy Gymru gyfan – cofiwch gysylltu â ni – mae'n rhad ac am ddim!

www.gwaithchwaraecymru.org.uk

Gwefan Gwaith Chwarae Cymru

Gallwn roi cyhoeddusrwydd i'ch cyrsiau hyfforddiant gwaith chwarae ar wefan newydd Gwaith Chwarae Cymru. Yn aml byddwn yn derbyn ymholiadau gan unigolion sydd am ennill profiad a chymwysterau gwaith chwarae yn y gymuned. Os hoffech ddweud writhym am yr hyfforddiant yr ydych yn ei drosglwyddo'n lleol, neu yr ydych yn bwriadu ei drosglwyddo, mae'n bosibl y gallwn gysylltu pobl â'i gilydd.

Beth ydych chi'n ei feddwl o wefan newydd Gwaith Chwarae Cymru?... a beth hoffech chi ei weld yn cael ei gynnwys ar y wefan yn y dyfodol?




P³ ar gael i Ysgolion

Rydym ar hyn o bryd yn hysbysebu ein cymhwyster P³ i ysgolion cynradd ar draws Cymru – gan annog cynorthwyyr cynnal dysgu, goruchwylwyr amser cinio a staff addysgu i ymgymryd â'r hyfforddiant.

Y gwahaniaeth mwyaf y gallwn ei wneud i safon y chwarae y bydd plant yn ei brofi yn yr ysgol yw agwedd a dealltwriaeth ein staff.

I unrhyw un sy'n gweithio â phlant – mae hyfforddiant gwaith chwarae P³ yn gyflwyniad seren aur i hwyluso chwarae plant.



Bydd dysgu am chwarae trwy P³ yn rhoi hyder i athrawon, cynorthwyyr a goruchwylwyr i gefnogi plant i chwarae yn eu ffordd eu hunain – ac fe welwn ninnau blant iachach, hapusach all wneud y gorau o'u hamser i chwarae.

Datblygwyd hyfforddiant P³ (Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith) gan Chwarae Cymru, ac fe'i cefnogir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae hyfforddiant P³ yn seiliedig ar y gwaith ymchwil a'r damcaniaethau diweddaraf ynghylch ymddygiad chwarae plant. Mae'n cynnig cymhwyster Lefel 2, neu gwrs hyfforddi fydd yn cyfoethogi sgiliau a gwybodaeth staff. Gellir rhedeg yr hyfforddiant dros gyfnod o amser i weddu i anghenion y dysgwyr a'r ysgol – gallwn drosglwyddo cwrs cymhwyster tridiau ar gyfer 15 o ddysgwyr am gyn lleied â £500 y dydd.

P³ – yn helpu ysgolion i gyfoethogi chwarae plant

**gwnewch i chwarae
weithio yn eich ysgol**

i unrhyw un sy'n gweithio â phlant yng Nghymru, mae hyfforddiant gwaith chwarae P³ yn gyflwyniad o safon i hwyluso chwarae plant

Cysylltwch â'n tim Datblygu'r Gweithlu ar 029 2048 6050 neu ebostiwch gweithlu@chwaraecymru.org.uk neu ewch at www.chwaraecymru.org.uk



Digwyddiadau

Sioe Deithiol a Chynhadledd No Ball Games! 'Play! The glue that holds the school day together'

20 Tachwedd 2009 – Dulyn
2 Rhagfyr 2009 – Hull

www.noballgames.eu

Cynhadledd Flynyddol a CCB Plant yng Nghymru

24 Tachwedd 2009

Canolfan Eglwys Crist, Casnewydd
www.plantyingnghymru.org.uk/11840.html

Chwarae Cymru – Rheoli Risg mewn Chwarae Plant: Agwedd synnwyr cyffredin
2 Rhagfyr 2009

Y Metropole, Llandrindod
www.chwaraecymru.org.uk

35^{ed} Seminar Cymdeithas Chwarae Gogledd Cymru

3 Rhagfyr 2009 (2:00 - 4:00pm)

Gwesty Kinmel Manor, Abergele
Galwch 07817 559805 neu ebostiwrch
jonrapa@yahoo.co.uk

25^{ain} Cynhadledd IPA / UDA
10 – 13 Mawrth 2010

Atlanta, Georgia
www.ipausa.org

Chwarae Cymru – Ysbryd Chwarae Antur
5 – 6 Mai 2010

Holiday Inn, Caerdydd
www.chwaraecymru.org.uk

20^{ed} Cyngres Fyd-eang Ryngwladol Therapi Chwarae

13 – 24 Mai 2010

Marrakech
www.playtherapy.org.uk/WorldCongress/WorldCongress2010home.htm

25^{ain} Cynhadledd Fyd-eang Chwarae yr ICCP – 'Children's Play: New Goals for the Future'

Mehefin 2010

Lisbon
Ebost: scarvalheiro@fmh.utl.pt neu cneto@fmh.utl.pt

Fe Fydda' i Yno

Cynhadledd Fyd-eang yr IPA – Cymru 2011

Mae'r gwaith cynllunio'n parhau ar gyfer 50^{ed} Cynhadledd wych yr International Play Association ym mis Gorffennaf 2011, ac mae cynnydd cyson yn cael ei wneud tuag at gynnal digwyddiad fydd yn arddangos y gorau y gall Cymru ei gynnig i blant sy'n chwarae.

Mae *Cadw Sŵn dros Chwarae* yn rhan o ddatiliadau'r 50^{ed} pen-blwydd yr ydym yn dechrau rhoi trefn arnynt. Bwriad y digwyddiad hwn yw i blant a chyfranogwyr gael mwynhau un prynhawn o anhrefn swllyd pur yn ystod y gynhadledd. Rydym wedi gwahodd pob un o'r Prosiectau Isadeiledd Chwarae a ariannwyd gan y Loteri FAWR i drefnu cyfle chwarae. Os ydych chi'n ddarparwr chwarae ac yr hoffech gael cyfle i gadw sŵn yn 2011, cysylltwch â'ch Prosiect Isadeiledd Chwarae rhanbarthol.

Mae *Cadw Sŵn dros Chwarae* yn ddatiliad yr ydym yn gobeithio ei rannu o amgylch y byd ac i dynnu sylw'r cyfryngau a'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau – oherwydd fe all unrhyw un yn unrhyw le gadw sŵn dros chwarae plant.

Yn y cyfamser, yng Nghanolbarth Cymru ... bydd unrhyw un a gymerodd ran yn Ffowm Gweithwyr Chwarae 2008 yn Y Bontnewydd-ar-Wy yn deall pam ein bod wedi dewis y lleoliad yma ar gyfer penwythnos y gwrsyll rhyngwladol gyda gweithwyr chwarae cyn y gynhadledd. Dewch inni fynd ati'n awr i obeithio'n daer am dywydd braf!



Swydd newydd

Yn y rhifyn diwethaf o *Chwarae dros Gymru* trist oedd nodi bod Annette yn ein Swyddfa yn y Gogledd wedi cael ei diswyddo.

Bellach mae Annette wedi ei phenodi'n Swyddog Gwybodaeth Conwy Iach – Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Conwy.

Ariannu: Nodyn i'ch Atgoffa

Mae cyllid Cynaliadwy Cymru yn wasanaeth sy'n cynnig cyngor a chyfleoedd ariannu.

Mae'r Porth Cyllid yn cynnig mynediad i gronfa ddata chwiliadwy o gyfleoedd ariannu yn y DU, cyngor a chefnogaeth ar sut i godi arian ac awgrymiadau ar sut i amrywio ffynonellau ariannu.

www.sustainablefundingcymru.org.uk/?diablo.lang=cym